**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No 1) Order 2004**

Mae'r Gorchymyn hwn yn addasu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 at ddiben awdurdodi neu hwyluso'r broses o ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Roedd y Gorchymyn yn nodi'i fod wedi'i wneud gyda chaniatâd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a roddwyd o dan adran 10(5) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000. Mae Rheol Sefydlog 25, adran 25 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7(vi).
Mae Erthygl 8 o'r Gorchymyn yn diwygio adran 89 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwriaeth) 1990 drwy fewnosod is-adran newydd (1A). Ar ei ffurf bresennol, mae paragraff (a) o'r is-adran newydd (1A) yn cyfeirio at "building reservation notice"; dylai hwn gyfeirio at "building preservation notice".
Mae modd cywiro'r mân wall drafftio hwn drwy Femorandwm Cywiriadau.

**Sylwadau**
Mae'r Gorchymyn hwn yn un o nifer o Orchmynion i'w gwneud o dan Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2003 sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth gynllunio i awdurdodi neu i hwyluso'r broses o ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Deellir ei bod yn ofynnol gwneud nifer o orchmynion ar gyfer Cymru (er mai dim ond un gorchymyn a wnaed ar gyfer Lloegr) gan nad oes gan y Cynulliad y pwer i wneud yr hyn sydd ei angen i gyflwyno'r diwygiadau. Deellir bod y ffordd arall o weithredu h.y. gwneud gorchymyn ar y cyd â'r Arglwydd Ganghellor wedi'i gwrthod am ddau reswm, yn gyntaf, fod y Gweinidog am wneud cymaint â phosibl ar ffurf ddwyieithog ac, yn ail, byddai gwneud gorchymyn ar y cyd gyda'r Arglwydd Ganghellor wedi bod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau yn y Senedd yn ogystal ag i weithdrefnau'r Cynulliad ei hun. Byddai hynny wedi bod yn broses hir a diangen heb unrhyw fanteision amlwg.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn datganoli ac am y rheswm hwn, mae'r gorchymyn i'w wneud yn Saesneg yn unig am y tro er ei bod yn ddyletswydd ar y Gweinidog i ystyried y buddioldeb o ddarparu cyfieithiad Cymraeg maes o law.
Mae ail Orchymyn, sef The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No 2) Order 2004 hefyd wedi'i wneud gan y Cynulliad. Bydd Gorchymyn Rhif 2 yn diwygio yr amryfal is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad a bydd yn gwbl ddwyieithog. Caiff trydydd Gorchymyn sy'n ofynnol er mwyn addasu amryfal Reoliadau sy'n berthnasol i'r broses gynllunio ei wneud gan Swyddfa'r Arglwydd Ganghellor gan nad oes gan y Cynulliad unrhyw bwer i wneud y diwygiadau gofynnol.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**23 Tachwedd 2004**